**ATODIAD 4**

**CYFALAF**

1. Tra bod cyllidebau refeniw awdurdodau lleol yn wynebu cyfyngiadau, mae cyllidebau cyfalaf hefyd dan bwysau, ac mae ymhlygiadau refeniw i wariant cyfalaf sydd heb ei ariannu drwy grant penodol.

2. Gosodaf isod raglen arfaethedig ar gyfer y cynlluniau am y dair mlynedd nesaf:

| **RHAGLEN GYFALAF** | | | |
|---|---|---|---|
| | **2020/21 £'000** | **2021/22 £'000** | **2022/23 £'000** |
| **Cynlluniau Asedau'r Cyngor :** | | | |
| Cynlluniau Ysgolion 21 Canrif | 1,521 | 1,895 | 995 |
| Cynlluniau Tai | 2,100 | 2,525 | 2,225 |
| Hwb Iechyd a Gofal Penygroes | 750 | 1,750 | 1,000 |
| Cartrefi/ Canolfannau Oedolion | 1,476 | 650 | 450 |
| Ffyrdd, Pontydd a Bwrdeistrefol | 745 | 776 | 1,145 |
| Cynlluniau Eraill | 2,513 | 2,980 | 2,214 |
| Bidiau Cyfalaf | 1,000 | 500 | 500 |
| **Cynlluniau Eraill :** | | | |
| Cynnal a Chadw Ysgolion – Disodli o 19/20 | 1,975 | 0 | 0 |
| Cefnogi Ysgogiad Economaidd – o 19/20 | 925 | 0 | 0 |
| Bidiau Cyfalaf | 1,004 | 0 | 0 |
| Strategaeth Tai | 4,150 | 2,700 | 2,700 |
| Cynlluniau Eisoes wedi eu cymeradwyo | 26,088 | 4,134 | 0 |
| **CYFANSWM Y RHAGLEN** | **44,247** | **17,910** | **11,229** |

3. Byddwn yn ariannu'r rhaglen fel a ganlyn:

| **ARIANNU'R RHAGLEN GYFALAF** | | | |
|---|---|---|---|
| | **2020/21 £'000** | **2021/22 £'000** | **2022/23 £'000** |
| Benthyca Gyda Chefnogaeth | 4,053 | 4,053 | 4,053 |
| Benthyca Arall | 3,563 | 2,567 | 0 |
| Grantiau a Chyfraniadau | 13,510 | 2,557 | 2,557 |
| Derbyniadau Cyfalaf | 827 | 0 | 0 |
| Refeniw Corfforaethol | 1,004 | 0 | 0 |
| Cronfa Cyfalaf | 257 | 3,801 | 0 |
| Cronfeydd Adnewyddu ac Eraill | 21,033 | 4,932 | 4,619 |
| **CYFANSWM ARIANNU'R RHAGLEN** | **44,247** | **17,910** | **11,229** |

4. Sefydlwyd strategaeth asedau newydd o 2019/20 ymlaen gan y Cyngor ar 7 Mawrth 2019. Bydd y strategaeth asedau newydd yn weithredol am y cyfnod 2019/20 hyd at 2028/29. Fe'i ymgorfforir fel rhan o'r Rhaglen Gyfalaf.

5. Sefydlwyd proffil tair mlynedd o 2019/20 gan y Cabinet ar 2 Ebrill 2019, gyda'r bedwaredd blwyddyn yn cael ei broffilio yn y rhaglen gyfalaf 2022/23.

6. Mae'r tabl uchod felly yn adlewyrchu'n fras y gofynion cyfalaf (ynghyd â'r ariannu) ar gyfer gosod cyllideb 2020/21 i 2022/23, tra bod y manylder ar y cynlluniau unigol wedi ei sefydlu gan y Cyngor yn y strategaeth asedau 10 mlynedd 2019/20 hyd 2028/29.

7. Felly, gofynnir i'r Cyngor llawn sefydlu rhaglen gyfan gwerth £44,247,260 ar gyfer 2020/21, i'w ariannu o'r ffynonellau a nodir yn y tabl o dan rhan 3 uchod.